# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (211)

# Dydd Mawrth, 20 Mehefin 2006

## AGENDA

## Bydd y cyfarfod yn dechrau am 2.00pm

Eitem 1 - Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Eitem 2 - Y Datganiad Busnes

Eitem 3 - Datganiad gan y Gweinidog dros Blant: Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant

Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth
Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 24.25

Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân
Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gweithdrefn Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2006

Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Ffioedd) (Cymru) 2006

Eitem 7 - Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru

Eitem 8 - Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Gyfiawnder Cymdeithasol

..........................................................

### Eitem 1 - Cwestiynau i'r Prif Weinidog

.......................................................

## Eitem 2 - Y Datganiad Busnes

.......................................................

## Eitem 3 - Datganiad gan y Gweinidog dros Blant: Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant

.......................................................

## Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth

## Eitem 4 - Cynnig i gymeradwyo deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 24.25

**NDM3095 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mehefin 2006 ynglyn â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006; a

2) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2006;
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Mai 2006; ac
c) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mehefin 2006.

**Dogfennau Ategol**
Gorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol -*Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*
Y Memorandwm Cywiriadau

.......................................................

## Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidleisiau ar wahân
## Eitem 5 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Gweithdrefn Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2006

**NDM3096 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Gweithdrefn Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2006.

***Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:***

**Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Yn credu y dylid sicrhau cydbwysedd rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat yng nghyfansoddiad y Tribiwnlys Eiddo Preswyl.

**NDM3097 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mehefin 2006 ynglyn â'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Gweithdrefn Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Gweithdrefn Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2006; a
b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mehefin 2006; ac
c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Mai 2006.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Gweithdrefn Tirbiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Y Memorandwm Cywiriadau
Yr Arfarniad Rheoliadol -*Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.........................................................

## Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Ffioedd) (Cymru) 2006

**NDM3098 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor y rheoliadau, Rheoliadau Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Ffioedd) (Cymru) 2006 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2006.

**NDM3099 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mehefin 2006 ynglyn â'r rheoliadau drafft, Rheoliadau Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Ffioedd) (Cymru) 2006; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Ffioedd) (Cymru) 2006 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Mai 2006; a
b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 31 Mai 2006.

**Dogfennau Ategol**
Rheoliadau Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Ffioedd) (Cymru) 2006
Adroddiad y Pwyllgor Deddfau
Yr Arfarniad Rheoliadol - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

.........................................................

## Eitem 7 - Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Cymru

NDM3100 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Gan weithredu'n unol â'i bwerau dan Adran 1 Deddf Ymchwiliadau 2005, yn peri i ymchwiliad gael ei gynnal i ddarpariaeth gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru;

2. Yn argymell y dylai cylch gorchwyl yr ymchwiliad fod fel a ganlyn:

a) edrych ar effeithiolrwydd safonau perfformiad, materion staffio, pwysau o ran arian ac adnoddau, ynghyd ag unrhyw faterion perthnasol eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol; a
b) ystyried y goblygiadau ar gyfer y dyfodol a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

3. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ysgwyddo cost yr ymchwiliad.

***Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:***

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Cynnwys pwynt 3 newydd ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn galw am gynnull panel, yn cynnwys Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac un Aelod yr un o Blaid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Plaid Geidwadol Cymru a Phlaid Cymru the Party of Wales, at ddiben argymell enw person cymwys i gadeirio'r ymchwiliad. Bydd y panel yn cyflwyno adroddiad gerbron y Cynulliad yn unol â hynny.

**..........................................................**

## Eitem 8 - Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Gyfiawnder Cymdeithasol

**NDM3101 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Cyfiawnder Cymdeithasol 2006 Llywodraeth Cynulliad Cymru, fel y'i cyflwynwyd gerbron y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 8 Mehefin 2006.

*E-bostiwyd copi o Adroddiad Cyfiawnder Cymdeithasol 2006 at Aelodau'r Cynulliad ar 13 Mehefin 2006.*

***Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cynnal yn unigol:*

***(1+2+3+4)***
***(5+6+7+8+9+10)***

**Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder y cynnydd mewn diweithdra a lefel uchel anweithgarwch economaidd yng Nghymru.

**Gwelliant 2 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder y cynnydd yn nifer y digartref, yr argyfwng cynyddol ym maes tai yng Nghymru a'r methiant i gydnabod bod cyflenwad digonol o dai fforddiadwy wrth wraidd adfywio cymunedol.

**Gwelliant 3 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder bod tlodi ar gynnydd mewn aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio.

**Gwelliant 4 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder bod y rhan fwyaf o'r gwelliant ym mherfformiad ysgolion ers canol yr 1990au wedi digwydd cyn 2000 a bod Cymru'n perfformio’n waeth nag unrhyw un o ranbarthau Lloegr ar lefel TGAU.

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y cynnydd sylweddol yn ddiweddar yn nifer yr aelwydydd yng Nghymru sy'n wynebu tlodi tanwydd.

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno cynllun effeithlonrwydd ynni cynhwysfawr gyda’r nod o leihau faint o ynni a ddefnyddir.

**Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn condemnio'r ffaith fod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwrthod rhyddhau ystadegau i ddangos a yw'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cyflawni ei hamcanion.

**Gwelliant 8 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y lefelau cyson uchel o dlodi mewn gwaith yng Nghymru.

**Gwelliant 9 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi gyda phryder fethiant Llywodraeth Cynulliad Cymru i anrhydeddu'r ymrwymiadau a wnaeth yn y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl yng Nghymru.

**Gwelliant 10 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r ffaith mai dyma adroddiad cyfiawnder cymdeithasol olaf tymor y Cynulliad ac yn edrych ymlaen at gael asesiadau annibynnol yn y dyfodol o record Llywodraeth y Cynulliad ym maes cyfiawnder cymdeithasol.

**Dogfennau Ategol**
Adroddiad Cyfiawnder Cymdeithasol 2006 - *Ni chyflwynwyd copi Cymraeg yn y Swyddfa Gyflwyno*

**..........................................................**

# Rhagwelir y bydd y cyfarfod yn dod i ben erbyn

**5.30pm**

**……………………………………………..**

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 21 Mehefin 2006**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**